CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD 29.04.2010 A GYNHALIWYD YN NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFAN GAN DDECHRAU AM 7.00PM

1. **CROESO GAN Y CADEIRYDD:** Croesawodd y Cadeirydd Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod. Offrymwyd gweddi gan y Maer.

YN BRESENNOL
Cyng Maer Selwyn Walters (Cadeirydd)
Cyng Robert Phillips (Is-Gadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton, Andrew Carter,
Elsie Dafis, Margaret Davies-Evans,
Greg Evans, Robert (Hag) Harris,
Lynda Mason-George,
Kistiah Ramaya, Chris Thomas,
Dorothy Williams & Derek Wilson.
Comander Rhanbarthol Simon Powell
Y Plismon Richard Marshall
SCCH Ryan Jones
Hannah Smith – Gohebydd y Wasg y Cambrian News

2. **YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwr Tref John Davies.

3. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU**
Bu i'r Cyng. Rob Phillips ddatgan buddiant personol pan yn trafod y gwahoddiad gan y Llyfrgell Genedlaethol Cymru i archifo gwefan y Cyngor Tref www.lampeter-tc.gov.uk

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**

4.1 **Derbyniwyd cyflwyniad i Gomander Rhanbarthol Newydd** Ceredigion Simon Powell, a apwyntiwyd 6 mis ynghynt. Y mae'n ymwneud â phatrolio'r dref er mwyn dod o hyd i faterion o gonsyrn. Adroddodd gostyngiad o 9% yn y nifer o droseddau, yn yr ardal o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Cyfeiriodd at yr Addewid Plismona a ddosbarthwyd ymysg aelodau'r Cyngor Tref yn ystod Cyfarfod Ionawr 2010. O dan yr Addewid, y mae'r heddlu'n trin dioddefwyr troseddau â pharch ac urddas.

4.2 **Ardal Gwahardd Alcohol ar gyfer Llambed –** Caniatawyd y Gorchymyn gan GSC ynghynt yn y dydd. Y mae'r ardal wedi ei ehangu i gynnwys Parc St. Germain-sur-Moine a Stryd San Thomas/Y Cwmin. Gobeithir cynnwys hefyd maes parcio'r Eglwys Babyddol a Mynwent Eglwys San Pedr. Bydd angen arddangos ail-hysbyseb yn y Wasg sef Hysbyseb Cyhoeddus yn datgan dyfodiad y Gorchymyn. Bydd y Cyngor Tref yn awgrymu llefydd addas ar gyfer yr arwyddion, sy'n ofynnol i fod mewn lle, cyn bod y Gorchymyn yn weithredol. Y mae'r Cyngor Tref wedi cytuno cyfrannu uchafswm o £2,500 at y costau.

Gadawodd y Cyng. Harros y cyfarfod, er mwyn mynychu cyfarfod arall.

4.3 Cyfarfod Ymgynghorol yr Heddlu 25.02.2010, Penmorfa, Aberaeron. Aeth y Cyng. Ramaya i'r cyfarfod hwn a gynhaliwyd ym Mhenmorfa, Aberaeron. Trafodwyd yr Addewid Plismona a'r Ardal Gwahardd Alcohol.

Cyrhaeddodd y Gyng. Mason-George y Cyfarfod.

4.4 Materion eraill a godwyd gan aelodau:

4.4.1 Mynegwyd pryder gan y Gyng. Williams ynglŷn â'r amser a gymerodd yr heddlu i ymateb i ddigwyddiad gwrth-gymdeithasol yn y dref yn ddiweddar sef 1awr 10 munud.

4.4.2 Heddlu a'r Gymuned Gyda'i Gilydd (PACT): yn ystod y cyfarfod diwethaf adroddwyd bod cŵn yn baeddu ar Barc St. Germain-sur-Moine. Bydd y mater yn cael ei drafod yn ystod cyfarfod nesaf y PACT.

4.4.3 Atgofiodd y Maer, yr Heddlu am gais y Cyngor Tref i Gyngor Sir Ceredigion, am arolwg trafnidiaeth llawn o'r dref.

4.4.4 Trafodwyd yr arfer o barcio cerbydau ar balmantau Heol y Porthmyn a ger y Siop y Spar.

4.4.5 Adroddodd y Cyng. Carter bod rhai aelodau oedrannus o'r cyhoedd wedi derbyn galwadau ffôn yn gofyn am eu manylion banc.

4.4.6 Siaradodd y Cyng. Rob Phillips â'r heddlu parthed cyflwyniad Gorchymyn Traffig ar Stryd y Farchnad. Byddai gwaharddiad yn lleddfu problemau traffig ac o gymorth i'r Heddlu pan yn ymdrin â phobl sy'n parcio'n gyson gerbron y palmantau ac yn rhwystro defnydd yr heol i yrrwyr eraill a cherddwyr.

Gosodwyd conau mewn lle'n y gorffennol ar Stryd-Y-Farchand, ond fe'u ddiddymwyd gan y tybiwyd nad oedd eu hangen. Cytunwyd i ddod o hyd i dystiolaeth pellach, cyn symud y mater yn ei flaen.

4.5 Adroddodd y Maer iddo fynychu Seremoni Gwobrwyo yr Heddlu Rhanbarth Ceredigion ym Mhrifysgol Aberystwyth ar yr 28ain Ebrill 2010. Derbyniodd SCCH Ryan Jones gymeradwyaeth am ei gyfraniad i Blismona yng Nghymdogaeth Llambed a Thregaron. Datganwyd llongyfarchion i SCCH Ryan Jones ar dderbyn y fath glod.

5. CADARNHAU COFNODION y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 25ain o Fawrth 2010 Cytunwyd bod cofnodion Mawrth yn gofnod cywir.

6. MATERION SY'N CODI

6.1 Trefniadau gogyfer y Seremoni Urddo'r Maer 2010 am 6.30pm, Hen Neuadd, Prifysgol Cymru, Llanbedr PS: Derbyniwyd yr wybodaeth parthed y trefniadau, cyn y cyfarfod hwn. Penderfynwyd cyflogi cyfieithydd proffesiynol Mrs Siân Jones, Cyfiaith, Aberaeron ar gyfer y Seremoni eleni £40/awr @1.5awr (i gynnwys 30 o glustffonau)= £60 + £20 (20 o glustffonau ychwaneg)=£80 TAW £14 CYFANSWM: £94.00. Cyhoeddod y Darpar-Faer apwyntiad y Parch. Janet Robbins fel Gaplan y Maer yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol nesaf.

Gadawodd y Comander Rhanbarthol, Y Plismon Richard Marshall a'r SCCH Ryan Jones y cyfarfod.

6.2 Arwydd Clos Glyndŵr: Dim datblygiadau pellach

6.3 Materion Traffig

Derbyniwyd Adroddiad ar lafar gan y Brifweithredwraig, Cyngor Sir Ceredigion ar y 29ain Ebrill 2010 ynglŷn â'r

6.3.1 Fynedfa Maes Parcio'r Rookery: Bydd barn yr Ymgynghorydd ar gael ynghanol Mis Mai. Rhoddir hystyriaeth i gyngor ac argymhellion yr Ymgynghorydd a rennir â'r Cyngor Tref, os bydd angen.

6.3.2 Mountwalk: cyflwynir nodweddion arafu cyflymder yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

6.3.3 Lôn Picton: Bydd y cynllun ar y cyd rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir yn cymryd lle'n ystod y flwyddyn ariannol hon.

Bu i'r Cyng Harris gyfleu gwybodaeth parthed yr uchod, cyn gadael y cyfarfod.

Ynglŷn â'r dŵr yn cronni tu allan i Gyffiniau'r Orsaf Ambiwlans, derbyniwyd ebost gan Mr Lyndon Griffiths, Peiriannydd Rhanbarthol, Adran y Priffyrdd CSC ar yr 28.03.2010 a oedd yn darllen, "*Perchnogion yr heol breifat sy'n arwain at yr Orsaf Ambiwlans sy'n gyfrifol am waredu â'r dŵr arwynebol o'r ffordd sydd eiddo iddynt. Hyd yn hyn nid yw'r Awdurdod y Priffyrdd yn medru darganfod pwy yw'r perchennog".*

Doedd dim ymatebion ynglŷn â'r ail gais i gyflwyno camau diogelwch ar gyfer cerddwyr ar Heol y Gogledd; cyflwyno parcio am gyfnod byr ar faes parcio'r Cwmin os gellir gorestyn rhwystrau cyfreithlon, llinell felen/ Gorchymyn Traffig o flaen Rhes Harford; y cais am Arolwg Traffig Llawn ar gyfer y dref, y gorlenwd Traffig ar Stryd y Porthmyn, yr arwydd ar gyfer ffin Sir Gâr a'r broblem parcio ar gyffordd Heol y Cambrian/Heol y Bryn. Cyflwynodd y Maer lythyr ynglŷn â newid siap mynedfa maes-parcio'r Rookery. Dywedodd y Brifweithredwraig CSC ei bod wedi gobeithio y byddai'r Cyngor Tref wedi derbyn adborth ysgrifenedig ynglŷn â'r Cyfarfod Ymgynghorol o'r 16eg Tachwedd 2009, erbyn y cyfarfod hwn, ond nid oedd hyn wedi bod yn bosibl drwy gyfrwng ebost gan fod system ffôn newydd, yn cael ei osod mewn lle.

Mynegwyd tristwch gan aelodau'r Cyngor Tref parthed y diffyg ymatebion parhaol i'w ceisiadau am wybodaeth oddi wrth y Cyngor Sir a'r angen cyson i'w hatgofio. Datganwyd siom hefyd ynglŷn â'r amser hir a gymerir i symud materion yn eu blaen ee cymerodd yr Ardal Gwahardd Alcohol 3.5 o flynyddoedd i gyrraedd y cam presennol, ers cyflwyno'r cais gan y Cyngor Tref yn ystod yr haf 2006 (croes-gyf 4.2)

Roedd aelodau o'r farn y dylai ymatebion ffurfiol, ysgrifenedig gael eu hanfon yn syth i'r Cyngor Tref, yn hytrach na derbyn ymatebion rhannol ac ar lafar, i rai materion, gan y Cynghorydd Tref a Sirol Harris. Ni

ddylai adroddiad ar lafar gan y Cyng. Harris olygu na fyddai ymatebion ysgrifenedig a phendant yn cael eu hanfon gan y Cyngor Sir.

Cynigwyd, eiliwyd a chytunwyd (8 cytuno, 2 yn erbyn ac un ataliad) i grynhoi enghreifftiau a fyddai'n goroleuo'r angen am welliannau yn y modd o gyfathrebu rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir, yn ystod y mis nesaf ac i geisio cyngor gan gorff yn uwch ee Un Llais Cymru a'r Gwasanaethau Cyhoeddus Ombwdsmon, ynglŷn â'r ffordd orau o fwrw'r maen i'r wal. Byddai'r mater yn cael ei gynnwys fel eitem ar yr agenda'n ystod y cyfarfod nesaf. Adroddodd y Gyng. Williams fod materion yn ymwneud â chyfathrebu rhwng cynghorau Tref/Cymuned yng Ngheredigion a'r Awdurdod Unedol wedi eu trafod yn ystod y cyfarfod diwethaf ardal Un Llais Cymru. Gallai Cytundeb Siarter fod o fudd. Roedd y Cyng. Carter o'r farn bod y Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaeth boddhaol.

6.4 **Llyfryn a ddosbarthwyd rhwng aelodau Ombwdsmon; Cod Ymddygiad –** Canllawiau Drafft gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cytunodd y Gyng Mason-George i drosglwyddo'r ddogfen at sylw'r Gyng. D.Williams.

6.5 **Mudiad Masnach Deg Llambed:** cytunwyd i ail-ddechrau'r pwyllgor o dan arweiniad y Darpar-Faer Rob Phillips.

6.6 **Y mae bynting wedi ei harddangos** yn y dref ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2010 Llanerchaeron a gydlynwyd gan y Cyngor Tref a'r Siambr Fasnach.

6.7 **Hysbysfwrdd y Cyngor Tref:** Holodd aelod o'r cyhoedd tybed a fyddai'n bosibl i arddangos poster yn ymwneud â'i busnes am dâl. Gwrthodwyd y cais, gan fod aelodau o'r farn mai at ddiben y Cyngor Tref yn unig, oedd yr hysbysfwrdd.

Gwelliannau i'r Gwaith Pren: (un uwch na'r drysau gwydr): dim datblygiadau.

6.8 **Roedd y Gyng. Williams** yn erbyn yr arfer o gofnodi amserau pan fyddai cynghorwyr yn cyrredd/gadael y cyfarfod, fel yr esiampl a amlygir yng nghofnodion Mawrth 2010. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn erbyn yr arfer hwn. Gallai penderfyniad gael ei wneud pan fyddai cynghorydd yn absennol, ac o dan y dull hwn o gofnodion ni fyddai'n gamarweiniol i ddarllenydd y cofnodion i feddwl bod y cynghorydd hwnnw wedi cyfrannu, i gyrraedd y penderfyniad. Dywedodd fod mudiadau eraill yn gweithredu'r ddull hwn. Dywedodd y Clerc, yn unol ag arfer da, ac yn y cais am dryloywdeb, bod yn agored a chywirdeb os oes cynghorydd yn absennol rhwng cyfnodau'r cyfarfod (ee yn hwy na 15 munud) byddai'n deg ac yn gyfiawnadwy i'r ffaith hwn gel ei gofnodi.
Ar ôl trafodaeth, cytunwyd i beidio parhau â'r arfer hwn, ond gellid cyfeirio at hyn ynghanol y cofnodion.

6.9 **Cyhoeddodd y Maer iddo gyflwyno** Mrs Iris Newman, Arweinydd Sgowt Grwp, Ymddiriedolwyr y Neuadd, Cyng. Ivor Williams a Mr John Davies â siec o £11,500 ar y 26ain Ebrill 2010 yn Neuadd y Sgowtiaid, Llambed. Yn bresennol oedd y Cyng. Andrew Carter, Hag Harris, John Davies, Margaret Davies-Evans a'r Clerc i nodi'r achlysur, yng nghwmni Arweinyddion Sgowtiaid, Sgowtiaid, Cenau, Afancod ac Ymchwilwyr. Defnyddir yr arian i ymgymryd â gwelliannau i'w hadeilad sy'n mynd â'i ben iddo, sef yr hen ysgol ramadeg. Gadawyd swm o £10,056.99 i bobl Llambed fel rhodd mewn ewyllys gan berson a hoffai fod yn ddi-enw yn Ebrill 2005, sydd wedi cynyddu gan gynnwys llog i £11,500.

6.10 **Cymdeithas Mynyddoedd Cambria:** bydd cynrychiolydd yn mynychu cyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor Tref.

7. GOHEBIAETH

7.1 **Un Llais Cymru Pwyllgor Ardal Ceredigion 8.04.2010**: Roedd y Gyng. D.Williams yn bresennol yn ystod y cyfarfod a'r eitemau ar yr agenda wedi cynnwys trafodaeth ar weithio mewn partneriaeth a siarteri, a'r Cynllun Datblygu Lleol – Grŵp Budd-ddeiliaid.

7.2 **Cronfa Menter Gymdeithasol Ceredigion:** CSC: er gwybodaeth.

7.3 **Gwahoddiad i gymryd rhan yn y prosiect peilot y LIGC** drwy archifo gwefan y Cyngor Tref www.lampeter-tc.gov.uk. Y mae'r LIGC wedi nodi'r wefan hon fel rhan bwysig o etifeddiaeth ddogfennol Cymru a hoffant iddi barhau i fod ar gael i ymchwilwyr yn y dyfodol. Os bydd y peilot yn llwyddiannus bydd y copi o'r gwefan a archifir yn dod, nes ymlaen yn rhan o'u casgliadau parhaol: cytunwyd i gymryd rhan.

7.4 **Posteri Etholiadol Cyffredinol** – 6.05.2010 – i'w harddangos yn y cyffiniau.

7.5 **Gohebiaeth eraill**: er gwybodaeth yn unig.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO

8.1 **Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC:** Cofnodion 10.03.2010 ac Agenda y cyfarfod 14.04.2010: er gwybodaeth.

8.2 **Cyfarfod Dyraniadau Aneddiadau'r Cynllun Datblygu Lleol:** Ymgynghoriad byr anffurfiol ar gyfer Aelodau'r Cyngor a'r Cynghorau Cymuned/Tref ynghylch Dyraniadau'r Aneddiadau (mapiau a niferoedd tai). Dydd Mawrth 11 Mai 2010 – 7pm Simbr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron: er gwybodaeth.

9. CYLLID

9.1 CYLLID – EBRILL 2010

EITEM	Rhif y Siec:	TÂL
Yswiriant Ieuanc Mewn Ysbryd –Eryl Jones	001830	£ 241.29
Contract Sign Systems – 2 arwydd newydd ar gyfer y Cae Maesyderi Field £80 net; Cludiant £30; TAW £19.25	001829	£ 129.25
Mr Tony Eames – gosod llwybr cerdded: Cae Maesyderi	001828	£ 1,925.00
Hirio Neuadd San Pedr x 3 – 29.04.2010 (x 3.5hrs)	001836	£ 26.25
Camerau TCC (tâl un blwyddyn) £12,000 TAW £2,100 CSC	001826	£14,100.00
Chris Thomas & Feibion; Frwythau ar gyfer y Disgo Ysgol Ffynnonbedr	001821	£ 72.50
Squash – Disgo Ysgol Ffynnonbedr	001816	£ 12.00
Mr Harold Williams, Disgo Ysgol Ffynnonbedr	001820	£ 50.00
Clyflog y Clerc Ebrill 2010 gros	001831	£ 634.10
Golau/Gwres a Storio Ebrill 2010	001832	£ 20.00
Tâl am amlenni a phapur swyddfa – Clerc	001827	£ 53.99
Bynting Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd	001825	£ 225.00
Zurich Municipal – premiwm ychwanegol ar gyfer y goleuadau Nadolig	001824	£ 222.90
Eisteddfod Gŵyl y Banc Rhys Thom. James Pantyfedwen	001835	£ 1,000.00

9.2 INCWM EBRILL 2010

9.2.1 **£1,200**: Llog bond yn flwydd oed wedi dod i rym. £60,000- Lloyds TSB (Ebrill 2010)
Y mae'r swm o £60,000 yn awr wedi ei fuddsoddi mewn bond 2 flynedd, llog sefydlog Lloyds TSB 2.35% y flwyddyn. Llog a ddisgwylir ar ôl dwy flynedd - £2,827.73. Dyddiad Cychwyn 9 Ebrill 2010.

9.2.2 **Alliance & Leicester:** Mantol Cynt y Datganiad 9.10.2009 £826.85; Mantol y datganiad presennol £827.27: **Llog Gros a dderbyniwyd: £0.42.**

10. IS-BWYLLGORAU

10.1 Goleuadau Stryd

10.1.1 **Goleuadau Nadolig: Y mae'r goleuadau Nadolig wedi eu hyswirio am £561 +5% TAW cynnydd o'r premiwm cynt** o £257 + 5% TAW, y flwyddyn, gan fod yr yswiriant amnewidiad wedi ei godi o £10,827 i £20,000.

10.1.2 **Y mae'r Heddlu wedi gwneud cais** i'r CSC i ail-gynneu rai goleuadau stryd ar Stâd Penbryn o 12 Canol Nos tan 5am, oherwydd consyrn trigolion.

10.1.3 **Trwsio Golau'r Senotaff:** (Mr D.Dudley): mater yn mynd yn ei flaen.

10.2 Palmantau

10.2.1 **I ofyn i GSC tybed a fyddai'n bosib gosod cwrbyn disgynedig** tu allan i Rhif 5 Kingsmead, i fod o gymorth i ddefnyddiwr cadair-olwyn.

10.2.2 **Adroddodd Rheolwr y Ganolfan Feddygol** y bydd gwelliannau'n cael eu hymgymryd ar y palmant ger y Feddygfa, yn ystod yr wythnos olynol.

10.2.3 **Y mae angen gwella cyflwr darn o** dir ger y Llew Du/Gorsaf Ambiwlans/Llys Idwal/ Stâd yr hen Garej. I gysylltu â Rheolwr y Llew Du. Hefyd i ofyn tybed a fyddai'n bosibl i ddarparu bin sbwriel yn y cyffiniau.

10.2.4 **Rhestr, i gynnwys yr holl broblemau'n** ymwneud â phalmantau'r dref. *(dim datblygiadau cyn belled*)

10.3 Llwybrau cerdded gan gynnwys Parc-yr-orsedd

10.3.1 **Hysbyswyd bod y cais** am gymhorthdal o dan y Cynllun Llwybrau Cymunedol CSC, wedi bod yn llwyddiannus. Bydd 0.75 x £1,060 yn cael ei glustnodi gan GSC ar ôl cwblhau gwaith ar lwybrau arbennig a gyfeirwyd atynt yng nghofnodion cynt.

10.3.2 **Magl ar gyfer y gât ger heol y Gogledd:** Adroddodd y Cyng. C Thomas iddo atgofio Mr Alec Page o'r angen brys i ddatrys y broblem. Rhoddwyd caniatâd i Cyng. Thomas i geisio gwasanaeth gweithiwr arall, os na fyddai'r dasg yn cael ei gyflawni'n ystod y dyfodol agos, am resymau iechyd a diogelwch.

10.3.3 **Trwsio'r Offer Cadw'n Heini:** Y Clerc wedi cysylltu â'r Cyflenwyr – yn disgwyl datblygiadau pellach.

10.3.4 **Trwsio'r Gât ar fynedfa Bryn-yr-Eglwys (heb ei gyflawni).** Cytunodd y Cyng Thomas i ddod o hyd i amnewidiad i'r asyn pren a waredwyd o'r parc oherwydd ei stad bwdr.

10.3.5 **Penderfynwyd i ystyried y posibilrwydd o gyflogi ceidwad ar gyfer** Parc-yr-Orsedd a'r Cae Maesyderi – i'w hystyried yn ystod cyfarfod y dyfodol o Gae Maesyderi.

10.3.6 Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion: Adroddiad Blynyddol 2009: Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion yw'r corff statudol a sefydlwyd gan y Cyngor Sir yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Swyddogaeth y Fforwm yw gwella mynediad y cyhoedd at dir at ddibenion hamdden a mwynhad yn yr awyr agored. Er gwybodaeth.

10.3.7(CC) oddi wrth Mrs Dorothy Lloyd, Llywydd Sefydlaid y Merched (SYM), Llambed yn mynegi pryder parthed y sbwriel a deflir ar y llwybr sy'n arwain drwy fynwent Eglwys San Pedr. ***Anfonwyd y llythyr at sylw'r Cyngor Sir.***

10.3.8 Y fainc sydd angen ei thrwsio ym Mryn-yr-Eglwys yng nghyffinaiu Bryn-yr-Eglwys. (Y Cyng. Derek Wilson)

10.4 <u>Camerau TCC</u>

10.4.1 Adroddiad Misol ar gyfer Mawrth 2010 CSC: bu yna un cais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â difrod troseddol. Roedd un camera'n ddiffygiol, yn methu defynddio'r cyfleuster chwyddo. Dyddiad adroddwyd y nam 6.03.2010; Dyddiad datrys y broblem 12.03.2010.

10.4.2 Cyfarfod Fforwm Ceredigion CTCC: 24.05.2010; CCC, Penmorfa, Aberaeron: trosglwyddwyd y manylion at sylw'r Cyng.Rob Phillips.

10.5 <u>Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi</u>

Cofnodion ynghlwm. Derbyniwyd ymateb gan GSC parthed y cais am estyniad yn y les i'r cae. Gofynnwyd tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Tref i gynghori ar hyd y les – i drafod yn ystod cyfarfod dyfodol y Pwyllgor.

11. UFA

11.1 Adroddodd y Gyng. Williams bod ambell arwydd o fewn y dref wedi ei osod mewn lle'n anghywir ac yn cyfleu cyfarwyddiadau anghywir – i hysbysu'r CSC ac i geisio cyfarfod Safle.

11.2 Penderfynwyd i beidio ag arddangos posteri AC Plaid Cymru a'r AS Dem/Rhydd ar yr hysbysfwrdd yn ystod cyfnod yr Etholiad o'r 6ef o Fai 2010.

11.3 Diolchodd y Maer i bawb am eu cyfraniad yn ystod ei gyfnod o fod yn Faer . Ni wireddwyd 2 fater yn ystod y flwyddyn megis:

11.3.1 Yr Orymdaith Giardiau Cymreig ;

11.3.2 Gosod y polion baneri yn ardal y Senotaff a'r Parc St.Germain-sur-Moine.

Gobeithiai y gellir eu cyflawni'n ystod y dyfodol agos.

Daeth y Cyfarfod i ben am 10.00pm

12. DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF

CCB Seremoni Urddo'r Maer: Hen Neuadd; Prifysgol Llambed;
Nos Wener 7 Mai am 6.30pm.

Cyfarfod Misol Nesaf: Nos lau 27ain o Fai, Neuadd yr Eglwys, Llambed am 7.00pm.

----------(Arwyddwyd/Dyddiad)